**CYNGOR - DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD 2024**

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD 2024 16:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd H Griffiths - Maer a Chadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | S J Bletsoe | E L P Caparros | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | M J Evans | N Farr |
| J Gebbie | RM Granville | G H Haines | M L Hughes |
| M Jones | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt |
| JC Spanswick | JH Tildesley MBE | HM Williams | T Wood |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | JPD Blundell | N Clarke | C L C Davies |
| P Ford | W R Goode | S J Griffiths | D M Hughes |
| RM James | P W Jenkins | M R John | W J Kendall |
| R J Smith | I M Spiller | T Thomas | A W Ulberini-Williams |
| G Walter | A Wathan | AJ Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Anya Richards | Rheolwr Grŵp - Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |

Datgan Buddiannau

## 67. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr canlynol:-<br><br>M Kearn<br>F Bletsoe<br>D Harrison |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

## 68. Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Datganwyd y buddiannau canlynol:-<br><br>Y Cynghorydd R Williams, budd personol mewn eitem 9 ar yr Agenda gan fod pont Pencoed Road yn cael ei chyfeirio ati yn yr adroddiad, sy'n rhywbeth yr oedd wedi bod yn ymgyrchu drosto ers nifer o flynyddoedd.<br><br>Y Cynghorydd E Winstanley, budd personol mewn eitem 4 ar yr Agenda gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Halo Leisure, a budd personol mewn eitem 9 ar yr Agenda gan ei bod yn gweithio i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen sy'n rheoli Pafiliwn y Grand, Porthcawl.<br><br>Y Cynghorydd M Evans, budd personol mewn eitem 9 ar yr agenda fel Cynghorydd Tref Pencoed, Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Croesty ac wedi ymgyrchu am gryn amser dros Bont Pencoed Road.<br><br>Y Cynghorydd J Gebbie, budd personol mewn eitem 9 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig |

| | |
|---|---|
| | Y Cynghorydd H Bennett, budd personol mewn eitem 8 ar yr Agenda gan ei bod yn gweithio yn y trydydd sector ac mae wedi gwneud sylwadau o'r blaen ar daliadau ymlaen llaw i sefydliadau'r trydydd sector.<br><br>Y Cynghorydd Amanda Williams, budd personol mewn eitem 9 ar yr Agenda, buddiant rhagfarnus fel Cadeirydd Ysgol Gynradd Coety lle cyfeirir yn yr adroddiad at ymrwymiad ariannol pellach i gwmpas y prosiect hwn. Gadawodd y Cynghorydd Williams y cyfarfod wrth ystyried yr eitem hon. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**69. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Cyngor ar 23 Hydref 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**70. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Brif Weithredwr Halo Leisure**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a gyflwynodd Scott Rolfe, Prif Swyddog Gweithredol Halo Leisure, a roddodd grynodeb o waith y sefydliad wrth gefnogi cyfleusterau iechyd a hamdden sydd ar gael i'r cyhoedd.<br><br>Dywedodd y byddai'n rhoi rhywfaint o gefndir ar sut y rhannodd Halo Leisure a CBSP eu hadnoddau i ddechrau a rhoi trosolwg o'r bartneriaeth a phryd/sut y daeth i fodoli. Byddai'r cyflwyniad yn canolbwyntio ar yr 8 canolfan fywyd graidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan amlinellu rhywfaint o ddata perfformiad allweddol, rhoi blas ar faint y gwasanaeth a'r effaith y mae'n ei chael yn y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi amcanion lles yr awdurdod lleol. |

| | |
|---|---|
| | Byddai'r cyflwyniad hefyd yn amlinellu rhai o lwyddiannau'r gwasanaeth yn y ffordd y mae wedi effeithio ar gymunedau sy'n cynnwys CBSBC ac yn rhoi enghreifftiau o opsiynau yn y dyfodol sy'n cael eu hystyried, er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau.<br><br>Yn dilyn cyflwyniad Mr Rolfe, gofynnodd y Maer am gwestiynau a gweler enghreifftiau ohonynt yma:-<br><br>• Nodir eich bod wedi lleihau'r defnydd o allyriadau carbon gan 12%. A oes unrhyw strategaethau neu gynigion pellach yn cael eu hystyried i leihau'r rhain ymhellach?<br>• Roedd aelod yn dymuno tynnu sylw at rai o'r sesiynau 'Feel Good for Life' a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cwm Ogwr a Chorneli yn ogystal ag ar-lein. Roedd hi'n teimlo ei bod hi'n werth mynd iddyn nhw.<br>• Beth yw'r gost o wagio pyllau nofio Halo o ddŵr ac ail-lenwi/ail-gynhesu'r rhain?<br>• A allech chi ehangu ar y math o waith a oedd wedi'i wneud i'r to a'r cladin yng Nghanolfan Fywyd Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar?<br>• A yw Halo yn annog pobl i gofrestru ar gyfer aelodaeth mewn Canolfannau Bywyd ac ati, drwy gynnig gwasanaethau am bris llai, gan gynnwys i bobl ifanc, pensiynwyr, y rhai ar fudd-daliadau neu gyn-filwyr?<br>• A allai Halo ystyried ehangu drwy gymryd drosodd asedau cymunedol o dan rywbeth tebyg i gynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor?<br>• Mae angen mwy o ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn canolfannau bywyd yn ardaloedd cymoedd Cwm Garw a Bro Ogwr;<br>• Oes gan Halo unrhyw fwriad i ehangu eu gwasanaeth y tu allan i ardaloedd Henffordd a Phen-y-bont ar Ogwr?<br>• Beth fyddai'r dull mwyaf effeithlon i Gynghorwyr atgyfeirio eu hetholwyr at Halo - a oes swyddog cyswllt penodol neu ffordd o wneud hyn?<br>• A oes angen i ganolfannau bywyd fodloni tymheredd gofynnol o ran cynhesu'r dŵr yn eu pyllau nofio?<br><br>Cadarnhaodd Mr Rolfe y byddai'n ymateb i'r cwestiynau a'r ymholiadau a godwyd uchod (yn ogystal ag unrhyw rai eraill) na allai ymateb yn ddigonol iddynt yn ystod y cyfarfod yn nes ymlaen y tu allan i'r cyfarfod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nodi adroddiad y Prif Weithredwr a'r cyflwyniad gan Brif Weithredwr Halo Leisure. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**71. Derbyn cyhoeddiadau gan:**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr urddasolion canlynol (dim angen gwneud/heb wneud penderfyniadau):<br><br>• Maer;<br>• Prif Weithredwr |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**72. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (dim angen gwneud/heb wneud penderfyniadau) |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**73. Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu 2025-2028 Deddf Gamblo 2005**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf 2025 i 2028.<br><br>Ym mis Ebrill 2023 cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei phapur gwyn gamblo a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer moderneiddio rheoleiddio'r sector tir. |

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gydag amrywiaeth o randdeiliaid, ar 16 Mai 2024 cyhoeddodd y Llywodraeth ei chasgliadau a'i chynigion a fydd yn effeithio ar y sector ledled Prydain Fawr.<br><br>Manylwyd ar y newidiadau arfaethedig ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, fodd bynnag, cynigiodd yr Awdurdod Trwyddedu na ddylid gwneud unrhyw newidiadau polisi yn ei Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu ar hyn o bryd.<br><br>Amlinellodd Atodiad B i'r adroddiad ymateb gan GamCare i'r ymgynghoriad statudol a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor am gyfnod o fis yn yr haf.<br><br>Gofynnodd aelod a fyddai unrhyw gyfyngiadau yn cael eu cynnig ar ddefnyddio taliadau electronig at ddibenion gamblo, er enghraifft, mewn perthynas â pheiriannau hapchwarae.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol – Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdogaeth y bydd amddiffyniadau priodol i chwaraewyr yn cael eu cyflwyno pan fydd y rhain wedi'u fframio a'u llunio gan y llywodraeth, ynghylch materion fel cyfyngu ar oedran a chyfyngu terfynau uwch i lefelau y gellir eu gamblo, gyda phrosesau hefyd yn cael eu rhoi ar waith ar y cyd â hyn i fonitro'r rhain.<br><br>Cododd aelod rai pryderon ynghylch twf hysbysebu gamblo ar y teledu/cyfryngau cymdeithasol ac ati a gofyn, a allai awdurdodau lleol wneud unrhyw beth i leihau hyn.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdogaeth na allai awdurdodau trwyddedu reoleiddio'r uchod gan fod hyn yn cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Gamblo. Fodd bynnag, pan fu unrhyw newidiadau yn ymwneud â gamblo, roedd awdurdodau lleol yn ymgynghorai ac felly gallent roi eu hadborth gan gynnwys unrhyw bryderon i'r newidiadau a gynigiwyd.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai’r Cyngor gymeradwyo’r Datganiad Egwyddorion Trwyddedu arfaethedig fel sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, i'w gyhoeddi yn unol â'r rheoliadau perthnasol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

## 74. Gwelliannau i'r Cyfansoddiad

<table>
<tr>
<td>Y Penderfyniad a Wnaed</td>
<td>Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, gan ofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor i gyfres o welliannau awgrymedig i'r Cyfansoddiad.<br><br>Roedd y rhain yn ymwneud â Rheolau Gweithdrefn Ariannol (RhGA) y Cyngor fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. Mewn cyfarfod o'r Cabinet ddoe, cafodd y gwelliannau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, sydd wedi'u hamlygu yn Atodiad 1 i'r adroddiad gerbron yr aelodau heddiw, eu cymeradwyo.<br><br>Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am newidiadau i gyfansoddiad yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy ac i Weithdrefnau Arbennig o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, a lywodraethir gan y Pwyllgor Trwyddedu, fel y manylir ym mharagraffau 3.3 i 3.5 yr adroddiad. Roedd angen diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn sgil y newidiadau a argymhellwyd.<br><br>Roedd newidiadau gramadegol pellach yn cael eu cynnig i'r Cyfansoddiad, fodd bynnag, gallai'r rhain gael eu gwneud o dan awdurdod dirprwyedig gan y Swyddog Monitro.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau nifer o bwyntiau yn bennaf mewn perthynas â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol:-<br><br>• Roedd angen cynnwys fel rhan o daliadau ymlaen llaw trydydd sector y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, h.y. y byddai pob taliad yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ac yn unol â chynllun y trydydd sector a'r Cod Ymarfer cyllido.<br>• Cyfeiriwyd yn weddol aml yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol at gymeradwyo awdurdod dirprwyedig i Brif Swyddogion gymeradwyo trosglwyddiadau arian ac ati, heb fod yn fwy na £100 mil (yn amodol ar gymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid). Fodd bynnag, roedd aelod o'r farn, o ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r cynigion torri costau sy'n wynebu'r Cyngor wrth symud ymlaen, pe bai'r ffigur hwn yn cael ei leihau er mwyn cael rheolaeth ariannol fwy llym dros gyllidebau'r Gyfarwyddiaeth/Cyngor.<br>• Mewn perthynas ag adran 5.2 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, a ddylai fod gan y Cyngor gofrestr sy'n cynnwys pob contract, nid dim ond y rhai sy'n fwy na £50 mil.<br>• Mewn perthynas ag adran 5.7, lle mae'n datgan y bydd 'pob Prif Swyddog yn hysbysu'r Cabinet, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, am gyfanswm yr ychwanegiadau neu amrywiadau i unrhyw gontract sy'n fwy na 10% o swm gwreiddiol y contract, neu £100,000 pa un bynnag sydd fwyaf', gallai hyn arwain at gontractau ar raddfa fawr yn mynd yn uwch na'u gwerth gwreiddiol gan tua</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>£600 - £800 mil mewn rhai achosion. Mae hyn yn ormod o lacio ar reolaethau ariannol y Cyngor drwy ddull o awdurdod dirprwyedig.<br>• Adran 9.3 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol - a'r frawddeg olaf ychwanegol, 'dylid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau yn y terfynau awdurdodi i'r Rheolwr Cymorth Busnes yn brydlon', dylid disodli'r gair yn brydlon gyda chyfnod penodol o amser.<br><br>Yng ngoleuni'r drafodaeth a ddilynodd ar yr adroddiad, cytunodd yr Aelodau â'r newidiadau i'r Cyfansoddiad y cyfeirir atynt yn y trydydd paragraff uchod, ond roeddent o'r farn y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn ei gyfarfod nesaf, ar y Rheolau Gweithdrefn Ariannol, o bosibl gan ystyried y wybodaeth a amlinellwyd yn y pwyntiau bwled uchod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai’r Cyngor yn:<br><br>(1) Cymeradwyo'r gwelliannau i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â:<br><br>• yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad;<br>• y Pwyllgor Trwyddedu fel yr amlinellir ym mharagraff 3.5.<br><br>(2) Cytunwyd i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol cyfredol y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad aros fel y maent ar hyn o bryd, gydag adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Cabinet Ionawr ar y Rheolau Gweithdrefn Ariannol, i'w ystyried.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>20 Tachwedd 2024</td></tr>
</table>

## 75. Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 2 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a gadarnhaodd fod paragraff 3.5.3 o’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol iddi adrodd yn chwarterol i'r Cabinet a'r Cyngor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus. Roedd yr adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw.<br><br>Felly, darparodd yr adroddiad ddiweddariad ar wariant chwarter 2 a gwariant a ragwelir ar gyfer 2024-25 ar |

| | |
|---|---|
| | 30 Medi 2024, y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 i 2033-34 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2024-25.<br><br>Dangosodd Atodiad A yr adroddiad y cyllidebau, gwariant hyd yma a gwariant diwedd blwyddyn rhagamcanol ar 30 Medi 2024 ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2024-25.<br><br>Roedd Atodiad B yn cynnwys y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 i 2033-34, tra bod Atodiad C yn rhoi manylion y Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2023-24 a’r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2024-25.<br><br>Roedd Tabl 1 yn yr adroddiad yn rhoi manylion y rhaglen gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o fis Gorffennaf 2024, safle cymeradwy’r Cyngor i Chwarter 2<br><br>Crynhodd Tabl 2 y rhagdybiaethau ariannu cyfredol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024-25. Eglurodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid bod adnoddau cyfalaf yn cael eu rheoli i sicrhau bod y budd ariannol mwyaf posibl i'r Cyngor yn cael ei gyflawni. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ad-drefnu cyllid i wneud y mwyaf o grantiau'r llywodraeth.<br><br>Rhoddodd gweddill yr adroddiad fanylion y cynlluniau sydd ar y gweill, gan gynnwys hefyd, manylion unrhyw ddyraniad pellach o gyllid i rai o'r rhain, a amlinellwyd am resymau amrywiol yn y ddogfen.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, yr ymatebodd y Cynghorwyr a'r Swyddogion hyn iddynt.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd fod rhai prosiectau anhygoel wedi'u cynnwys yn y rhaglen, gan gynnwys, er enghraifft, adnewyddu ysgol Heronsbridge ac agor Neuadd y Dref Maesteg heddiw, a oedd yn gyfleuster ardderchog i bobl Maesteg, y Fwrdeistref Sirol ehangach ac ymwelwyr â'r ardal.<br><br>Roedd rhai Aelodau yn pryderu bod rhai prosiectau wedi'u gohirio ac felly'n llithro o'r chwarter hwn o'r rhaglen gyfalaf i'r nesaf a bod oedi rhai o'r rhain wedi arwain at orfod ymrwymo adnoddau iddynt.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd fod Bwrdd Monitro’r Rhaglen Gyfalaf wedi cael ei sefydlu o fewn y 12 mis diwethaf, fel y gwyddai'r aelodau, ac roedd y Bwrdd yn edrych yn fanylach ar gost amcangyfrifedig prosiectau wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau lle bynnag y bo modd, eu bod yn parhau i gael eu hadeiladu o fewn y gyllideb amcangyfrifedig. |

<table>
<tr><td></td><td>
Cynigiodd aelod bleidlais ar argymhellion yr adroddiad, gan nad oedd yr adroddiad yn rhoi digon o wybodaeth am faint o arian wrth gefn a gynhaliwyd yn y rhaglen gyfalaf i gefnogi'r prosiectau unigol a gynhwysai, o lefel y prosiect hyd at lefel y rhaglen.
Cafodd y cynnig uchod ei eilio’n briodol.
Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:-
<table>
<tr><td><u>O blaid (argymhellion yr adroddiad)</u></td><td><u>Yn erbyn</u></td><td><u>Yn ymatal</u></td></tr>
<tr><td>39</td><td>2</td><td>0</td></tr>
</table>
<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai’r Cyngor yn:
<ul>
<li>nodi diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 2 2024-25 y Cyngor hyd at 30 Medi 2024 (Atodiad A i’r adroddiad y cyfeiriwyd ato).</li>
<li>nodi’r llithriad o £12.643 miliwn hyd at 2024-25, fel y nodir yn Atodiad B i’r adroddiad.</li>
<li>cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau fel y nodir yn Atodiad B.</li>
<li>cymeradwyo'r ychwanegiadau/gostyngiadau newydd i'r rhaglen gyfalaf yn 2024-25, cyfanswm o -£3.831 miliwn fel yr amlinellir yn Atodiad B.</li>
<li>cymeradwyo'r ychwanegiadau newydd at y rhaglen gyfalaf rhwng 2025-26 a 2027-28, cyfanswm o £19.520 miliwn fel y manylir yn Adran 3.3.</li>
<li>nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2023-24 a'r rhai gwirioneddol ar gyfer 2024-25 (Atodiad C i’r adroddiad).</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>20 Tachwedd 2024</td></tr>
</table>

## 76. Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Hanner Blwyddyn hyd at fis Medi 2024

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad ariannol ar y mater uchod.<br><br>Dywedodd fod paragraff 22.5 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd yn chwarterol i'r Cabinet, gan grynhoi gweithgarwch benthyca a buddsoddi a nodi cydymffurfiaeth ag unrhyw ganllawiau statudol neu ganllawiau a gymeradwywyd gan y Cyngor, ynghyd ag adroddiad hanner blwyddyn a blynyddol i'r Cyngor.<br><br>Rhoddodd yr adroddiad gerbron yr Aelodau ddiweddariad o weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod hanner blwyddyn 1 Ebrill 2024 – 30 Medi 2024.<br><br>Ar 30 Medi 2024, roedd gan y Cyngor £99.58 miliwn o ddyled hirdymor, £15.32 miliwn o rwymedigaethau hirdymor eraill a sefyllfa ddyled net gyffredinol o £69.90 miliwn.<br><br>Y gyfradd llog gyfartalog ar gyfer dyled oedd 4.69% (ac eithrio benthyca Salix sy'n ddi-log) ac ar gyfer buddsoddiadau roedd yn 5.09%.<br><br>Amlygodd fod gan y Cyngor strwythur aeddfedrwydd hylaw o fenthyca, gyda'i ddyled bresennol yn ad-daladwy ar wahanol adegau dros y 30 mlynedd nesaf.<br><br>Cadarnhaodd fod y Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â Chod Rheoli Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.<br><br>Dywedodd aelod ei fod yn teimlo'n dawel ei feddwl ar ôl gweld ar frig tudalen 128 yr adroddiad bod y llog cyffredinol a gafodd y Cyngor o fuddsoddiadau'r Trysorlys rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024 yn £2.31 miliwn. Teimlai fod hyn yn cadarnhau pa mor gymwys oedd tîm Cyllid y Cyngor o ran rheoli cyllid CBSP.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cadarnhau'n ddiweddar fod dyled o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru yn £5.6 miliwn, sy'n is nag mewn awdurdodau lleol yn Lloegr ac yn yr Alban. Hefyd, o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Pen-y-bont oedd â'r ddyled isaf ar wahân i Gyngor Bwrdeistref Merthyr, fodd bynnag, os cyfrifwyd hyn ar sail 'y pen', yna BCBC oedd yr isaf yng Nghymru mewn gwirionedd. |

| | |
|---|---|
| | Yn olaf, gofynnodd aelod mewn perthynas â'r newid i ddull MRP yn seiliedig ar Flwydd-dâl, pa fesurau y mae’r awdurdod lleol wedi’u rhoi ar waith i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn ysgwyddo unrhyw faich ariannol gormodol oherwydd y ffaith bod y model hwnnw wedi'i newid. Rhoddodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, ymateb addas i'r cwestiwn hwn.<br><br>PENDERFYNWYD: Y byddai’r Cyngor yn:<br><br>• nodi gweithgareddau Rheoli’r Trysorlys ar gyfer 2024-25 ar gyfer y cyfnod hanner blwyddyn, 1 Ebrill 2024 hyd at 30 Medi 2024.<br><br>• nodi ymhellach Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys am yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024 yn erbyn y rheini a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

## 77. Sylfaen y Dreth Gyngor 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer sylfaen y dreth gyngor amcangyfrifedig ar gyfer 2025-26, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cymeradwyo'r sylfeini treth unigol ar gyfer y trefi a'r ardaloedd cymunedol, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.<br><br>Sylfaen y dreth gyngor net amcangyfrifedig yw 55660.20 yn seiliedig ar gyfradd gasglu o 97.5%, sy'n ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.<br><br>Ychwanegodd fod gofyn i'r Cyngor hefyd gymeradwyo'r sylfeini treth ar gyfer yr ardaloedd cyngor tref a chymuned unigol ar gyfer 2025-26.<br><br>Cyfeiriodd aelod at dudalen 139 o'r adroddiad a dywedodd, mewn perthynas â’r canrannau casglu amcangyfrifedig, ein bod wedi defnyddio'r un ffigur ar gyfer yr holl ardaloedd cyngor tref a chymuned. Fodd bynnag, tybed a oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng yr ardaloedd hyn yn seiliedig ar gyfraddau |

| | |
|---|---|
| | casglu blaenorol.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Tai Cyllid a Newid fod y Cyngor yn defnyddio'r gyfradd gyfartalog honno, gan fod CBSP yn casglu arian o'r fath ar ran yr holl ardaloedd cyngor tref/cymuned ac yna'n anfon y dyraniadau hyn ymlaen at bob un ohonynt. Pe bai gostyngiad yn yr ardal gasglu o fewn un ardal, byddai'r cyngor tref/cymuned yn dal i dderbyn yr arian a ragwelwyd ar y gyfradd o 97.5%, felly roedd yn seiliedig ar gyfartaledd ar draws y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:<br><br>• Cymeradwyo sylfaen y dreth gyngor a'r gyfradd gasglu ar gyfer 2025-26 fel y dangosir ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad.<br>• Cymeradwyo ymhellach sylfeini'r treth ar gyfer yr ardaloedd cyngor tref a chymuned a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**78. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Y Cynghorydd Tim Thomas i'r Arweinydd (anfonwyd yr ymateb i'r Aelodau cyn y cyfarfod).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas (i'r Arweinydd). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024 |

**79. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Tachwedd 2024. |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18:45.